# TOMATOS

## 1 HAU DY HADAU

Rhwng diwedd Mawrth a dechrau Ebrill, gelli di hau'r hadau 1cm o ddyfnder mewn potiau 9cm. Cadwa nhw'n gynnes yn y tŷ gwydr.


## 2 PLANNU ALLAN

Ym mis Mai a Mehefin, pan fydd y planhigion tua 20cm o daldra, planna nhw y tu allan mewn gwely llysiau. Bydd planhigion tomato'n tyfu gwreiddiau o'u coesynnau. Felly y traddodiad yw eu plannu nhw'n ddwfn yn y pridd i annog mwy o wreiddiau a phlanhigyn cryfach.

Gwarchoda nhw gyda gwlân garddio os yw'r nosweithiau'n dal yn oer. Planna nhw gan adael 50cm o leiaf rhwng pob planhigyn. Mae yna ddau fath o domato: tomato cordon a llwyn. Edrych ar y pecyn hadau i weld pa fath sydd gen ti. Bydd tomatos llwyn yn tyfu am allan a does dim angen strwythur i'w dal i fyny. Fe ddylet ti glymu tomato cordon wrth ffon bambŵ a thynnu'r coesynnau ochr er mwyn iddo dyfu'n dal.

## 3 CYNAEAFU

Gelli di hel y tomatos pan maen nhw'n hollol aeddfed ac yn un lliw drostyn nhw. Ar ddiwedd y tymor tyfu, gelli di roi ffrwythau sydd heb aeddfedu mewn lle cynnes i aeddfedu. Neu gelli di wneud siytni tomatos gwyrdd gydag unrhyw domatos gwyrdd sydd ar ôl!




### COFIA

Pan fyddi ti'n pinsio coesyn ochr oddi ar y tomato, rho hwn mewn gwydraid o ddŵr a gwylio'r gwreiddiau'n tyfu. Mae gen ti blanhigyn tomato newydd nawr ar gyfer dy ardd, am ddim!

Mae tomatos sy'n cael eu tyfu tu allan yn dueddol o gael eu heffeithio gan yr afiechyd ffwngaidd, malltod. Ceisia dyfu mathau sy'n gallu gwrthsefyll malltod, neu tyfa nhw yn y tŷ gwydr.



Newydd egino



Planhigion ifanc



Barod i'w hel

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES